

## 2014 Rhif 1914 (Cy. 195)

### TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Traffordd yr M4 a  
Chefnffordd yr A48 (Cyffordd  
Earlswood i Gylchfan Llansawel,  
Castell-nedd Port Talbot) (Terfyn  
Cyflymder 50 mya Dros Dro) 2014

*Gwnaed* 21 Gorffennaf 2014

*Yn dod i rym* 29 Gorffennaf 2014

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Draffordd Llundain – De Cymru (yr M4) a Chefnffordd Llundain – Abergwaun (yr A48) (y cyfeirir atynt yma wedi hyn fel “y draffordd” ac “y gefnffordd”), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o’r draffordd a’r gefnffordd oherwydd y tebygolrwydd o berygl i’r cyhoedd.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

#### Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw’r Gorchymyn hwn i rym ar 29 Gorffennaf 2014 a’i enw yw Gorchymyn Traffordd yr M4 a Chefnffordd yr A48 (Cyffordd Earlswood i Gylchfan Llansawel, Castell-nedd Port Talbot) (Terfyn Cyflymder 50 mya Dros Dro) 2014.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “y darnau o’r gefnffordd” (“*the lengths of the trunk road*”) yw’r darnau o’r gefnffordd rhwng Earlswood a Llansawel ym Mwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a bennir yn yr Atodlen;

ystyr “y darn o’r draffordd” (“*the length of the motorway*”) yw’r darn o’r draffordd wrth Gyffordd 42

(Earlswood) ym Mwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a bennir yn yr Atodlen.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

### **Cyfyngiad**

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darnau o'r draffordd a'r gefnffordd.

### **Cymhwys**

4. Ni fydd darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

### **Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

21 Gorffennaf 2014

*R Morgan*

**RICHARD MORGAN**

Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau

Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## **YR ATODLEN**

Y darn o ffordd ymadael tua'r dwyrain y draffordd wrth Gyffordd 42 (Earlswood) sy'n ymestyn i gyfeiriad y gogledd o'i chyffordd â'r A48 a'r A483 wrth Gyffordd Earlswood am bellter o 500 metr.

Y darn o gerbyttfordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chyffordd Earlswood hyd at bwynt sy'n 20 metr i'r de o Gylchfan Llansawel.

Y darn o gerbyffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chyffordd Earlswood hyd at bwynt sy'n 400 metr i'r de o Gylchfan Llansawel.

Cerbyffordd gylchredol gyfan Cylchfan Llansawel.